Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

WCVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Dyfarniadau Grant Cylch 8 2022-2023

Mudiad	Thema	Lleoliad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Eglwys Efengylaidd Mount Elim	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Castell-nedd Port Talbot	Adeiladu cyfleuster eglwys gymunedol newydd sy'n bodloni'r holl ofynion ar gyfer iechyd, diogelwch, hylendid a mynediad, er mwyn galluogi i ni ehangu gweithgareddau gan gynnig cymorth â dyledion, banc bwyd, plant bach, clybiau plant, cymorth i fenywod a dynion sy'n agored i niwed, ciniawau i bobl hŷn/unig, digwyddiadau gan yr ysgol gynradd, digwyddiadau, sgyrsiau, cyngherddau, arddangosfeydd, iechyd a chyfleoedd hyfforddi.	£30,000.00

Meithrinfa Coeden Fach	Bioamrywiaeth	Abertawe	Byddwn yn casglu hadau o rywogaethau brodorol lleol ac yn eu tyfu'n goed ifanc i'w plannu yn/o amgylch Abertawe. Gan weithio gyda gwirfoddolwyr ac mewn partneriaeth â mudiadau cymunedol eraill, byddwn yn plannu coed mewn ardaloedd cymunedol er mwyn gwella mannau gwyrdd, yn ychwanegu at fioamrywiaeth ac yn cefnogi coridorau bywyd gwyllt ledled Abertawe.	£31,403.00
Neuadd Bentref Glangrwyne	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Powys	Rydyn ni'n ehangu ac yn gwella'r cyfleusterau mewnol yn y neuadd ar hyn o bryd er mwyn creu Hyb Cymunedol. Ond, bydd y cyfleusterau newydd yn edrych allan ar ardaloedd gwyllt, ac rydyn ni eisiau troi'r rhain yn ardd gymunedol fechan a man chwarae diogel i blant, a fydd yn gwella'r cyfleusterau cymunedol hyn.	£39,446.86
Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Sir Gaerfyrddin	Bydd y Profiad Gwyrdd yn Dr Mz yn darparu lle i arddio er mwyn cynnig profiad gwaith gwirfoddol/â thâl mewn tyfu bwyd a sgiliau gwaith ieuenctid i bobl ifanc rhwng 16-25 oed yn ogystal â chyfleoedd i'r rheini rhwng 7-16 oed ddysgu am dyfu bwyd, bioamrywiaeth a gwella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.	£45,851.93
Coleg y Mynydd Du	Bioamrywiaeth	Powys	Gyda chefnogaeth y gymuned leol, bydd Coleg y Mynydd Du yn gwella bioamrywiaeth rhan sylweddol o fferm fynydd a, thrwy wneud	£30,893.00

			hynny, yn cyflwyno budd cymunedol ehangach drwy wella ansawdd lle.	
Tir Gwyllt	Bioamrywiaeth	Sir y Fflint	Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar lesiant coetiroedd a'u cymunedau lleol. Bydd yn cysylltu cymunedau a choetiroedd Bwcle, Alltami a Brychdyn (Sir y Fflint) drwy gyfleoedd gwirfoddoli i bob rhan o'r gymuned sy'n canolbwyntio ar reoli a chreu coetiroedd, ynghyd ag addysg a digwyddiadau llesiant.	£40,901.59
FareShare Cymru	Lleihau Gwastraff	Sir Benfro	Mae FareShare Cymru yn brwydro newyn drwy fynd i'r afael â gwastraff bwyd. Rydyn ni'n cymryd bwyd sydd dros ben o'r diwydiant bwyd ac yn ei ailddosbarthu i fudiadau sy'n ei ddefnyddio i helpu i fwydo pobl sy'n agored i niwed yn eu cymunedau. Mae'r prosiect hwn yn ehangu ein gwasanaeth i Sir Benfro, gan sefydlu pwynt casglu a chefnogi pum mudiad lleol.	£15,839.85
Ymddiriedolaeth Natur Gwent Cyfyngedig	Bioamrywiaeth	Blaenau Gwent	Mae'r prosiect hwn ar y thema bioamrywiaeth yn ceisio gwella man gwyrdd cymunedol cyfredol, hen safle wastraff, yng ngwarchodfa natur Cwm Tawel. Byddwn ni'n creu cynefinoedd newydd i beillwyr o fewn ac o amgylch yr ardal hon ac yn ailgysylltu cymunedau lleol drwy wella hygyrchedd, cyfleusterau a'r profiad deongliadol i ymwelwyr.	£49,842.00

Ymddiriedolaeth Penllergare	Bioamrywiaeth	Abertawe	Mae poblogaeth llygod y dŵr wedi bod yn dirywio'n ddramatig ledled y DU. Gyda'r dystiolaeth sydd gan Benllergare o'r boblogaeth ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwella cynefinoedd er mwyn annog adfywiad yn nifer y boblogaeth a'u gwneud yn safle posibl ar gyfer eu hailgyflwyno yn y dyfodol.	£36,075.24
FRAME Sir Benfro	Lleihau Gwastraff	Sir Benfro	Taith i weld, darganfod a thrawsnewid tecstilau, gan godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a phroblemau a achosir gan ffasiwn gyflym. Prosiect peilot sy'n rhannu ymddygiadau moesegol, awgrymiadau ar gyfer gwarchod yr amgylchedd a gwneud dillad sy'n para'n hirach, lansio label ffasiwn, gweithdai trwsio/ailddefnyddio, cydweithio, cymorth gan y gymuned a chamau tuag at economi gylchol.	£43,232.00
Groundwork Gogledd Cymru	Bioamrywiaeth	Wrecsam	Fe wnawn ni weithio gyda gwirfoddolwyr cymunedol i gyflwyno gwelliannau amgylcheddol i'r safle, a gwneud ychydig o waith dymunol ar y seilwaith (a fydd yn cynnwys dylunio gardd fawnog). Byddwn yn arddangos y gwaith hwn gyda rhaglen o ymweliadau amgylcheddol i blant ysgol yn ystod amser tymor, ac i deuluoedd ar benwythnosau a gwyliau.	£42,525.72

Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli	Lleihau Gwastraff	Pen-y-bont ar Ogwr	Ailwampio a chwilio defnydd newydd i eitemau er mwyn lleihau'r pethau a anfonir i safleoedd tirlenwi, ynghyd â chyfres o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n annog ac yn galluogi'r gymuned ehangach i ddefnyddio'r hyn sydd ganddyn nhw a'u trwsio yn hytrach na'u gwaredu. Helpu i warchod yr amgylchedd a'r arian yn eich poced.	£20,898.00
Tillery Action For You Ltd	Bioamrywiaeth	Blaenau Gwent	Mae ein prosiect yn ymwneud â chynyddu bioamrywiaeth o fewn Blaenau Gwent drwy wella a rheoli gwarchodfeydd natur, mannau gwyrdd cymunedol a dolydd blodau gwyllt wrth gyflwyno hyfforddiant, sgiliau a chymwysterau gyda gwirfoddolwyr. Bydd ein prosiect hefyd yn ehangu'r mynediad i'r mannau hyn ac yn darparu ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned drwy weithgareddau Bioamrywiaeth fel hau hadau blodau gwyllt.	£47,500.00
Cyngor Tref y Trallwng	Bioamrywiaeth	Powys	Byddwn yn dodi ffensys 2.4m yn lle'r clawdd Leylandii 150m x 4m ac 100m x 3.5m sy'n fwy na 50 mlwydd oed yn ôl yr angen, coed ffrwythau brodorol – afal, gellyg, eirin a dringwyr e.e. gwyddfid, barf yr hen ŵr. Cael eu plannu gan wirfoddolwyr, holl gynnyrch ar gael i'r gymuned gyfan. Mae'r ardal yn agored i bawb.	£49,999.00

Ymddiriedolaeth St Giles	Lleihau Gwastraff	Conwy	Pantri CYMRU – Archfarchnad Gymdeithasol Bae Colwyn: Torri'r gylchred anfantais. Cael gwared ar ddibyniaeth teuluoedd incwm isel ar fwyd – cyflwyno llwybr cynaliadwy allan o dlodi a lleihau gwastraff bwyd yng Nghymru.	£48,880.00
Canolfan Maerdy	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Castell-nedd Port Talbot	Bydd Gweithiwr Datblygu Gerddi Cymunedol yn cynorthwyo gwirfoddolwyr o bob oed i ddatblygu tair ardal o dir sydd wedi'u hesgeuluso er budd y gymuned; tyfu llysiau a ffrwythau, tirlunio gyda blodau sy'n denu gwenyn, darparu seddau, hyfforddiant, gwella mannau chwarae a datblygu system gompostio gymunedol. Bydd y cynnyrch yn cefnogi ein Cydweithfa Fwyd ac yn annog bwyta iach fforddiadwy.	£49977.96